# Cyfrifiadura HND (Amser Llawn)

Mae HND Cyfrifiadura yn gwrs addysg uwch 2 flynedd, lefel 4/5, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n dymuno datblygu gyrfa yn y sectorau Cyfrifiadura a Thechnoleg Ddigidol cyffrous a chyfnewidiol.

**Cod UCAS:** 004G

## Gofynion Mynediad

• 2 Lefel A gradd D neu broffil MP/PPP o gymhwyster BTEC Lefel 3. Hefyd 5 TGAU Gradd C neu uwch, gan gynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfwerth
• HNC mewn Cyfrifiadura (cyfwerth â blwyddyn gyntaf yr HND)
• Mae croeso hefyd i ddysgwyr aeddfed (dros 21 oed) nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol, ond sy'n gallu dangos profiad gwaith perthnasol, a/neu gyflawni cymwysterau proffesiynol mewn Cyfrifiadura neu TG, wneud cais (a chânt eu hasesu'n unigol). Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'n Tîm Derbyn.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn disgyblaethau sy'n ymwneud â Chyfrifiadura, gan gynnwys datblygu Cymwysiadau, Dadansoddi Systemau Busnes, Datblygu a Gweinyddu Cronfeydd Data, Ymgynghoriaeth / Rheoli Systemau Gwybodaeth, Datblygu Gemau / Amlgyfrwng, Dylunio a Datblygu Gwefannau, Rheoli Rhwydwaith, Ymgynghoriaeth / Rheolaeth Seiberddiogelwch, Gweithrediadau TG a Thechnegol. Cefnogaeth
Fel arall, mae llwybr dilyniant cydnabyddedig i'r cwrs BSc (Anrh) Cyfrifiadura Cymhwysol a gynigir yng Ngrwp Colegau NPTC.

## Modiwlau'r cwrs

Blwyddyn 1:
• Rhaglennu
• Rhwydweithio
• Dylunio a Datblygu Cronfeydd Data
• Diogelwch
• Cylchoedd Oes Datblygu Meddalwedd
• Dylunio a Datblygu Gwefan
• Cynllunio Prosiect Cyfrifiadura

• Ymarfer Proffesiynol
Blwyddyn 2:
• Prosiect Ymchwil Cyfrifiadura
• Gwybodaeth Busnes
• Systemau Rheoli Cronfeydd Data
Ynghyd â 4 opsiwn o'r llwybrau canlynol (yn amodol ar alw a hyfywedd):
• Peirianneg Meddalwedd: Datblygu Cymwysiadau, Rhyngwynebau Rhaglenni Cymwysiadau, Profiad Defnyddwyr a Dylunio Rhyngwyneb, Datblygu Gemau
• Technolegau sy'n dod i'r amlwg: Rhyngrwyd Pethau, Datblygiad Realiti Rhithwir ac Estynedig, Roboteg, Cyfrifiadura Cwmwl
• Seiberddiogelwch: Diogelwch Rhwydwaith, Fforensig, Systemau Gweithredu, Cryptograffeg Gymhwysol yn y Cwmwl
• Datblygu'r We – Systemau Cyfrifiadura Cleient/Gweinydd, Cyfrifiadura Cwmwl, E-Fasnach a Strategaeth
• Dadansoddeg Busnes: Dadansoddi a Delweddu Data Mawr, Profiad y Defnyddiwr a Dylunio Rhyngwyneb, Technolegau Digidol fel Catalydd ar gyfer Newid

## Asesiad

Bydd yn rhaid i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi gamu ymlaen drwy'r rhaglen.

## DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

2 Flynedd